

Categori Ymgysylltiad Cymunedol a Byd-eang

Mae argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn boenus o annheg, gan fod yr effeithiau mwyaf trychinebus i'w teimlo gan y tlawd a'r bregus sydd wedi gwneud leiaf i achosi'r argyfwng. Fe'n gelwir i garu ein cymydog, felly mae gennym gyfrifoldeb atyn nhw a'r mannau lle maen nhw'n byw, ble bynnag y maent, i ddangos cariad at bobl a byd natur trwy ddadlau o blaid byd mwy cyfiawn (Micah 6:8). Er bod llawer y gallwn ni ei wneud gyda'n gilydd fel eglwys, bydd ein heffaith yn fwy fyth os gweithiwn gydag eraill i gyflawni newid lleol a byd-eang. Ble bynnag ydych chi ar eich taith o ran ymgysylltu cymdeithasol a gwleidyddol, mae'r categori hwn yn wahoddiad i gymryd y cam nesaf, p'un a yw hynny'n golygu dechrau sgwrs yn eich eglwys, ymuno â digwyddiadau lleol sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, neu ymuno ag ymgyrch dros fyd natur.

Nod y categori hwn yw helpu eich eglwys i feddwl a gweithredu'n eglur ac yn effeithiol, gyda phobl eraill. Bydd meddu ar gynllun neu strategaeth (tystiolaeth o fwriad) yn helpu eich eglwys i wneud y canlynol:

- cael y sgysiau angenrheidiol i feithrin dealltwriaeth o'r materion dan sylw a sbarduno gweithredu
- cadarnhau eich ymrwymiad i weithredu dros gyfiawnder i bobl a byd natur
- nodi ffyrdd o droi'r ymrwymiad hwn yn weithredu (e.e. ymgysylltu â'r Wythnos Fawr Werdd, siarad â'ch Aelod Seneddol am fyd natur a'r hinsawdd)
- nodi ffyrdd o fesur effaith eich gweithredu.

Cyfeiriwch at [ddogfen drosolwg ymgysylltiad cymunedol a byd-eang](#) i gael arweiniad pellach wrth gwblhau'r categori hwn. (Saesneg yn unig)

Sylwer bod y ddogfen hon er gwybodaeth ac at ddefnydd eglwysi yn unig. I wneud cais am ddyfarniad Eco Church, bydd angen i chi gopio eich atebion i'r arolwg ar-lein ar [blatfform ar-lein Eco Church](#) (Saesneg yn unig). Gan mai tîm bychan ydym ni, allwn ni ddim derbyn copiâu papur o arolygon yn geisiadau am ddyfarniadau.

Ymrwymiad

1. Mae ein heglwys yn cydnabod effaith argyfyngau'r hinsawdd a byd natur ac mae ganddi gynllun neu strategaeth ar gyfer gweithredu'n LLEOL a/neu'n GENEDLAETHOL a/neu'n FYD-EANG. *Os nad oes gennych un o'r rhain, gallai'r cwestiynau sy'n dilyn eich helpu i lunio un.*

Ydy / Nac ydy

Categori Ymgysylltiad Cymunedol a Byd-eang

Thema 1: Cynyddu ymwybyddiaeth – sicrhau cefnogaeth pobl

2. Mae ein heglwys yn ymateb i effaith argyfyngau'r hinsawdd a byd natur ac yn ymgysylltu â materion cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n effeithio ar yr ardal LEOL (e.e. ymgyrchoedd tai a thrafnidiaeth) fel a ganlyn:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Trafod a gweithredu gan y tîm Eco Church

Trafod a gweithredu sy'n cynnwys cymuned ehangach yr eglwys (e.e. y tîm Cenhadaeth), gan gynnwys yr arweinwyr

Ymgysylltu â'r gymuned y tu hwnt i'r eglwys

Dim ymgysylltu

3. Mae ein heglwys yn ymateb i effaith argyfyngau'r hinsawdd a byd natur ac yn ymgysylltu â gweithgareddau/materion cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cael effaith GENEDLAETHOL fel a ganlyn:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Trafod a gweithredu gan y tîm Eco Church

Trafod a gweithredu sy'n cynnwys cymuned ehangach yr eglwys (e.e. y tîm Cenhadaeth), gan gynnwys yr arweinwyr

Ymgysylltu â'r gymuned y tu hwnt i'r eglwys

Dim ymgysylltu

4. Mae ein heglwys yn ymateb i effaith argyfwng yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol ac yn ymgysylltu â materion cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cael effaith FYD-EANG fel a ganlyn:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Trafod a gweithredu gan y tîm Eco Church

Trafod a gweithredu sy'n cynnwys cymuned ehangach yr eglwys (e.e. y tîm Cenhadaeth), gan gynnwys yr arweinwyr

Ymgysylltu â'r gymuned y tu hwnt i'r eglwys

Dim ymgysylltu

Categori Ymgysylltiad Cymunedol a Byd-eang

Thema 2: Gweithredu

5. Mae ein heglwys yn ymwneud ag eiriol/ymgyrchu ynghylch materion cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol (e.e. llygredd aer yn lleol, materion ansawdd dŵr, llygredd plastig) fel a ganlyn:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Mynychu cymorthfeydd cyngorwyr lleol

Ymgysylltu â Gweithgor Hinsawdd yr awdurdod lleol neu grŵp cyfatebol

Ymgysylltu â hystingau (e.e. ar gyfer etholiadau cyffredinol, is-etholiadau lleol neu etholiadau cyngor lleol) ar faterion yr hinsawdd a byd natur

Mynychu cymorthfeydd ASau

Mynychu cyfarfodydd cyhoeddus perthnasol

Ymgyrchu ar-lein/digidol, gan gynnwys ysgrifennu llythyrau ac ymwneud â deisebau

Cymryd rhan mewn gwylnosau gweddi, protestiadau hinsawdd, etc.

Gwahodd cynrychiolwyr etholedig i ddigwyddiadau cymunedol priodol

Arall

Dim ymgysylltu

6. Mae ein heglwys yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ar faterion amgylcheddol a/neu gyfiawnder hinsawdd, yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang.

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Gydag eglwysi eraill

Gyda grwpiau ymgyrchu lleol ar lawr gwlad

Gyda grwpiau cadwraeth

Gyda grwpiau cymunedol eraill

Gydag ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol a/neu gyrff anllywodraethol

Gyda rhwydwaith amgylcheddol lleol

Arall (rhowch fanylion yn y blwch sylwadau)

Dim ymgysylltu

7. Mae ein heglwys yn darparu cyfleoedd a digwyddiadau sy'n annog profiad tecach a mwy cynhwysol o fyd natur i bawb trwy fynd allan i fwynhau, meithrin a diogelu byd natur.

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Teithiau cerdded, beicio, etc.

Digwyddiadau dysgu (e.e. teithiau tywys, gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion)

Ymgysylltu'n weithredol â grwpiau lleiafrifol neu sydd ar y cyrion

Arall

Dim cyfranogiad

Categori Ymgysylltiad Cymunedol a Byd-eang

8. Mae ein heglwys yn cydnabod bod dewisiadau o ran sut rydyn ni'n defnyddio/stiwardio cyllid ein heglwys – gan gynnwys bancio, pensiynau a gwaredu asedau – yn cael effaith sylweddol ar yr hinsawdd a chyfiawnder hinsawdd. Rydyn ni'n gwneud y canlynol:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Cefnogi ymgyrchoedd a chamau gweithredu gwrthdodi

Bancio gyda darparwyr sydd â pholisïau cadarn o ran lles byd natur a'r hinsawdd

Gwrthod buddsoddi mewn cronfeydd sy'n elwa o danwydd ffosil

Cefnogi neu fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n buddsoddi'n weithredol mewn newid cadarnhaol i'r hinsawdd a byd natur

Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ynghylch defnyddio arian (e.e. gwaredu asedau, pensiynau a bancio)

Dim ymgysylltu

9. Mae ein heglwys yn cymryd rhan yn y digwyddiadau canlynol:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan ARUK (e.e. Wild Christian)

Digwyddiadau eraill (e.e. Yr Wythnos Fawr Werdd, Diwrnod y Ddaear, Awr y Ddaear)

Gweminarau perthnasol a digwyddiadau hyfforddi ar-lein

Digwyddiadau eraill i gynyddu ymwybyddiaeth (rhowch fanylion yn y blwch sylwadau)

Dim cyfranogiad

10. Mae ein heglwys yn defnyddio cynllunio achredu cydnabyddedig/sefydliadau sy'n annog gweithredu ar faterion cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau ynghylch prynu, etc. fel y canlynol:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Sefydliad Masnach Deg / Addoldy Masnach Deg

Cynnyrch B Corps

Rainforest Alliance

Arall

Dim ymgysylltu

Categori Ymgysylltiad Cymunedol a Byd-eang

11. Dyma ein polisi o ran bwyd/prydu mae ein heglwys yn eu darparu:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Yn bennaf neu'n gyfangwbl figan/seiliedig ar blanhigion

Opsiynau figan/llysieuol bob amser yn cael eu darparu

Bwyd o ffynonellau lleol gymaint â phosibl

Bwyd organig gymaint â phosibl

Cadw at y safonau uchaf posibl o ran lles anifeiliaid

Darparu ar y cyd â chynlluniau gwastraff bwyd lleol neu genedlaethol (e.e. prosiect Real Junk Food, archfarchnadoedd etc)

Dim ymgysylltu

12. Mae ein heglwys yn hyrwyddo a/neu'n cefnogi trafndiaeth gynaliadwy.

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus lle bo modd

Annog rhannu ceir yn lleol

Gosod neu ymgyrchu dros fwy o fannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan

Sicrhau bod mynediad ar feic mor hwylus â phosibl

Darparu rheseli beiciau

Cynnig sesiynau trwsio beiciau o leiaf unwaith y flwyddyn

Arall (rhowch fanylion yn y blwch sylwadau)

Dim ymgysylltu

13. Mae ein heglwys yn gweithredu ynghylch gwastraff – rydyn ni'n atal, yn arbed, yn aildefnyddio, yn atgyweirio, yn ailgylchu etc. Rydyn ni'n gwneud y canlynol:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Meddu ar bolisi/gynllun i leihau ein gwastraff

Deall polisi ac ymarfer ein hawdurdod lleol o ran gwastraff

Mynd ati'n barhaus i leihau ein defnydd o ddeunyddiau ac adnoddau

Osgoi defnyddio nwyddau untro fel cwpanau, platiau, cyllyll a ffyrc, a phlastig untro lle bynnag y bo modd

Aildefnyddio neu brynu'n ail-law lle bynnag y bo modd

Ailgylchu deunyddiau a chyfarpar (e.e. electroneg) lle bynnag y bo modd

Sicrhau bod gwastraff bwyd priodol yn cael ei gompostio

Gweithio'n weithredol tuag at anfon dim gwastraff i'w dirilenwi

Dim ymgysylltu

Categori Ymgysylltiad Cymunedol a Byd-eang

Thema 3: Cyfathrebu

14. Mae gan ein heglwys eco-hyrwyddwr/llysgennad sydd ar gael i gymryd rhan mewn digwyddiadau allanol.

Oes / Nac oes

15. Mae ein heglwys yn cyfathrebu ynghylch ein gwaith, gan gynnwys ein cyfranogiad yn Eco Church, er mwyn rhannu syniadau, cynyddu ymwybyddiaeth ac annog eraill i ymgysylltu:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Ar ein gwefan

Mewn cyfathrebu mewnol (e.e. cylchlythyron)

Ar hysbysfyrddau cyhoeddus (diriaethol neu ddigidol)

Ar safle wybodaeth mewn digwyddiadau

Yn y wasg leol neu genedlaethol

Ar y cyfryngau cymdeithasol

Arall

Dim ymgysylltu

16. Mae ein heglwys yn rhoi cefnogaeth ariannol i elusen amgylcheddol.

Ydy / Nac ydy